**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Caerdydd
CF99 1SN

04 Hydref 2022

Annwyl Llyr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 9 Awst, yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r achosion presennol o Ffliw Adar Pathogenig Iawn (HPAI) yng Nghymru.

Mae poblogaeth adar môr Cymru o bwysigrwydd rhyngwladol. Rwy'n ymwybodol o'r cynnydd digynsail yn nifer yr achosion o HPAI a welwyd mewn poblogaethau adar gwyllt eleni, a'r marwolaethau torfol cysylltiedig a welwyd mewn llawer o rywogaethau adar môr sy'n bwysig o ran cadwraeth yn y DU, Ewrop a Gogledd America. Fel y nodwyd yn eich llythyr, mae'r achosion a gadarnhawyd ymhlith huganod ar Ynys Gwales yn peri pryder penodol inni, ac yn dangos bod y risg o'r clefyd hwn yn effeithio ar nythfeydd adar môr Cymru yn parhau.

Er mwyn ymateb i ganlyniadau positif i brofion HPAI ar Ynys Gwales, mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) wedi atal yr holl fodrwyo adar môr a chofnodi nythod adar môr yng Nghymru, o 5 Awst, nes y dywedir fel arall. Mae'r gweithgareddau a ataliwyd yn cynnwys modrwyo a chofnodi adar nad ydynt yn adar môr mewn nythfeydd adar môr. Mae lleihau'r tarfu ar yr adar drwy osgoi rhyngweithio diangen rhwng pobl ac adar gwyllt yn cynyddu eu cydnerthedd a'u gallu i oroesi'r clefyd.

Ym mis Mehefin, gan gydnabod y risgiau i nythfeydd o adar môr yng Nghymru, sefydlodd fy swyddogion weithgor rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys CNC, Iechyd Cyhoeddus Cymru, y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adareg Prydain, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru, a wardeiniaid gwarchodfeydd, er mwyn rhannu gwybodaeth ac arbenigedd, monitro'r sefyllfa a datblygu camau gweithredu ar sail tystiolaeth mewn ymateb i'r bygythiad mae HPAI yn ei beri i'n poblogaethau adar gwyllt. Mae camau a gymerwyd wedi cynnwys gweithio i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r HPAI hwn drwy hyrwyddo a chyhoeddi cyngor ar gyfer y cyhoedd mewn perthynas ag unrhyw adar môr marw a welir (**https://llyw.cymru/rhoi-gwybod-am-adar-marw-au-gwaredu**).

Mae swyddogion hefyd yn gweithio gyda Llywodraethau eraill y DU, gan gynnwys Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) y mae ei system gwyliadwriaeth adar gwyllt yn profi am achosion posibl o HPAI mewn modd strategol. Mae natur fudol a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

chyrhaeddiad posibl ein hadar môr yn gwneud cydweithio a monitro effeithiol ar draws ein gweinyddiaethau yn hanfodol er mwyn inni allu olrhain a deall lledaeniad y feirws.

Ar 31 Awst, cyhoedd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â DEFRA, 'Strategaeth Liniaru ar gyfer Ffliw Adar mewn Adar Gwyllt yng Nghymru a Lloegr' **(https://llyw.cymru/strategaeth-liniaru-ar-gyfer-ffliw-adar-mewn-adar-gwyllt-yng-nghymru-lloegr).** Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu canllawiau ar bolisïau a dulliau presennol ledled Cymru a Lloegr, a bydd yn helpu rhanddeiliaid i ddeall y rhain, gan ddarparu senarios clir mewn perthynas ag adar gwyllt. Bydd y rhain yn galluogi elusennau cadwraeth a rheolwyr tir i ymateb i ffliw adar mewn adar gwyllt mewn ffordd effeithiol a chyson.

Yn anffodus, mae'r tebygolrwydd y gallai ffliw adar beri marwolaethau torfol i adar môr yng Nghymru, fel y gwelwyd yn yr Alban a Lloegr, yn parhau i fod yn uchel. Mae hefyd yn bosib y gallai ffliw adar beri marwolaethau torfol mewn adar gwyllt a phoblogaethau o rydyddion yn ystod yr hydref a'r gaeaf.

Yn y tymor hwy, rwyf wedi ymrwymo i gyflwyno Strategaeth Gwarchod Adar Môr Cymru a fydd yn nodi camau gweithredu lefel uchel i gefnogi'r gwaith o warchod adar môr yng Nghymru. Mae fy swyddogion yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliad i ddatblygu camau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth drwy asesu pa mor agored mae rhywogaethau o adar môr i bwysau a bygythiadau.

Yn gywir



**Julie James AS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd